16 Medi 2022

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Gobeithio eich bod wedi cael haf pleserus ac yn barod am yr hydref prysur sydd o'ch blaen.

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch gwahodd i'n Grwpiau Cymwysterau Sector sydd yn dechrau'r hydref hwn. Er bod ein hadolygiadau sector yn asgwrn cefn i'n strategaeth cymwysterau galwedigaethol, rydym eisiau gweithio'n agosach fyth gyda canolfannau dysgu a rhanddeiliaid yng Nghymru yn barhaus ar draws yr ystod lawn o gymwysterau galwedigaethol ôl-16. I'r perwyl hwnnw rydym yn sefydlu Grwpiau Cymwysterau Sector – un fesul sector – i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn (ar Teams neu Zoom) i ganolbwyntio ar y cymwysterau galwedigaethol ôl-16 yn y sector hwnnw.

Bydd y grwpiau'n cynnwys cynrychiolwyr o addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, chweched dosbarth o ysgolion, a rhanddeiliaid addysg ehangach. Bydd hwn yn gyfle i nodi materion a phryderon, rhannu arfer da a chlywed am (neu ofyn) am ddatblygiadau newydd gan gyrff dyfarnu. Mae cylch gorchwyl drafft gan gynnwys yr aelodaeth arfaethedig a dyddiadau'r cyfarfodydd cyntaf wedi'u cynnwys yn atodiad 1 y llythyr hwn.

Rydym yn gwahodd cyrff dyfarnu i enwebu cynrychiolydd(wyr) ar gyfer y grwpiau sector sy'n berthnasol i'ch sefydliad. Ar gyfer y cyfarfod cyntaf, rydym yn cynnig bod pob corff dyfarnu (sydd efo diddordeb yn nghymwysterau yn y sector) yn darparu diweddariad byr ar ddatblygiadau yn y sector a bydd sesiwn holi ac ateb yn dilyn. Mae templed ar wahân yn atodiad 2 y llythyr hwn y mae modd i chi ei ddefnyddio i gofnodi'ch enwebiadau ar gyfer pob grŵp a'i dychwelyd aton ni. Anfonwch eich enwebiadau at GrwpiauCS@cymwysteraucymru.org erbyn **dydd Gwener 30 Medi**. Edrychaf ymlaen at fynychu rhai o'r grwpiau a gobeithio y byddant yn cydweithrediad llwyddiannus.

Gyda dymuniadau gorau

Cassy Taylor

Cyfarwyddwr Polisi a Diwygio Cymwysterau

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Atodiad 1

Grwpiau Cymwysterau Sector ôl-16

Cylch Gorchwyl Drafft - Awst 2022

Mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu sefydlu Grwpiau Cymwysterau Sector yn y sectorau canlynol:

	Grŵp	**Dyddiad y cyfarfod cyntaf**
1	Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant	Dydd Llun 14 Tachwedd 2022 14:00-16:00
2	Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	Dydd Iau 17 Tachwedd 2022 14:00-16:00
3	TGCh a Digidol	Dydd Llun 7 Tachwedd 2022 14:00-16:00
4	Peirianneg a Gweithgynhyrchu	Dydd Mawrth 8 Tachwedd 2022 14:00-16:00
5	Lletygarwch, Arlwyo, Teithio a Thwristiaeth	Dydd Mercher 9 Tachwedd 2022 14:00 – 16:00
6	Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus	Dydd Mawrth 15 Tachwedd 2022 14:00-16:00
7	Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid	Dydd Llun 28 Tachwedd 2022 14:00 – 16:00
8	Busnes, Gweinyddu a Manwerthu	Dydd Mercher 30 Tachwedd 2022 14:00-16:00
9	Celf, y Creadigol a'r Cyfryngau	Dydd Mercher 16 Tachwedd 2022 14:00 – 16:00
10	Gwallt a Harddwch	Dydd Mawrth 22 Tachwedd 2022 14:00-16:00
11	Addysg a Hyfforddiant	Dydd Llun 21 Tachwedd 2022 14:00-16:00
12	Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith (gan gynnwys Sgiliau Byw'n Annibynnol)	Dydd Mercher 23 Tachwedd 2022 14:00 – 16:00

Pwrpas

Pwrpas y Grwpiau Cymwysterau Sector yw:

- derbyn adborth yn ymwneud â chymwysterau ôl-16 rheoleiddiedig gan ddarparwyr dysgu a rhanddeiliaid perthnasol ym mhob sector.
- nodi a, lle bo'n briodol, datrys materion sy'n ymwneud â chymwysterau ôl-16 wedi'u rheoleiddio ym mhob sector.
- rhannu gwybodaeth gyfredol yn ymwneud â chymwysterau ôl-16 a rheoleiddiedig gyda darparwyr dysgu a rhanddeiliaid perthnasol ym mhob sector.
- adeiladu a chynnal cysylltiadau cryf gyda darparwyr dysgu a rhanddeiliaid perthnasol eraill ym mhob sector.
- nodi bylchau o ran argaeledd cymwysterau ôl-16, gan gynnwys cymwysterau cyfrwng Cymraeg, ym mhob sector.
- cefnogi adolygiadau sector cyfredol, adolygiadau sector cam 2 a rhaglenni diwygio cymwysterau.

Trefniadau'r cyfarfodydd

- Rydyn ni'n disgwyl i Grwpiau Cymwysterau Sector gyfarfod ar-lein (drwy Teams/Zoom neu ddewis arall) ddwywaith y flwyddyn (unwaith yn nhymor yr hydref ac eto yn nhymor y gwanwyn neu'r haf) ond gall grwpiau benderfynu cwrdd dros ddwywaith y flwyddyn, os oes angen.
- Yn gyffredinol, ni ddylai cyfarfodydd fod yn fwy na dwy awr o hyd, ond bydd hyd y cyfarfodydd yn cael ei benderfynu gan faint gweithgarwch y grŵp ar unrhyw un adeg.
- Bydd cyfarfodydd yn cael eu cadeirio a'u gwasanaethu gan gynrychiolwyr o Cymwysterau Cymru.
- Bydd nodiadau a chamau gweithredu cyfarfodydd yn cael eu rhannu gyda chynrychiolwyr o bob Grŵp Cymwysterau Sector.

Aelodaeth

Dylai aelodaeth pob Grŵp Cymwysterau Sector gynnwys cynrychiolydd o:

- bob coleg addysg bellach – fel arfer pennaeth pwnc yn y sector perthnasol
- Grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd ColegauCymru
- unrhyw ddarparwr dysgu seiliedig ar waith sy'n cynnig cymwysterau yn y sector
- o leiaf un ysgol uwchradd sydd â chweched dosbarth ym mhob un o'r ardaloedd consortia rhanbarthol[1]
- NTfW
- Estyn
- Llywodraeth Cymru
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Efallai y bydd rhanddeiliaid eraill (er enghraifft, cyrff dyfarnu, cyrff sector a grwpiau cyflogwyr) yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd i ddarparu diweddariadau perthnasol.

[1] Bydd cynrychiolydd o GwE, EAS, CSC a Partneriaeth yn cael eu gwahodd yn ogystal â chynrychiolydd o Geredigion, Powys a Chastell-nedd Port Talbot.